Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Penodi Aelod

Dyddiad cau: 19/07/2018

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	**3**
Atodiad A: Rôl yr Aelod a rôl Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru	**5**
Atodiad B: Y broses ddethol	**11**
Atodiad C: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus	**13**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb mewn bod yn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Bydd disgwyl i'r aelod newydd fynychu cyfarfodydd a chyfrannu at drafodaethau. Mae aelodau'n gyfrifol ar y cyd dros sicrhau bod penderfyniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystyried cyngor gwyddonol, buddiannau defnyddwyr a ffactorau perthnasol eraill. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru drwy: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-fbdd20faa3db/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd XXXX ac yna cliciwch ar 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Cofiwch sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad i bobl ag anableddau. Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn diffinio bod person yn anabl os oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith anffafriol sylweddol a hirdymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad os ydynt yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd.

Datganiad Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	19 Gorffennaf 2018
Llunio rhestr fer:	diwedd Gorffennaf 2018
Cynnal cyfweliadau:	Awst 2018

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu cynnal yng Nghaerdydd gan amlaf; fodd bynnag, efallai y caiff cyfarfodydd eu cynnal ledled Cymru ar adegau.
Tâl cydnabyddiaeth:	£3,717 y flwyddyn
Ymrwymiad Amser:	21 diwrnod y flwyddyn

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a rôl yr Aelodau, mae croeso i chi gysylltu â Helen George neu Lucy Edwards:

Ffôn: 02920 678907 a 02920 678957
E-bost: walesadminteam@foodstandards.gsi.gov.uk

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y broses ymgeisio neu os hoffech chi wneud cais drwy ddefnyddio copi caled, cysylltwch â:

Ffôn: 0300 062 8204 (a gofyn am yr Uned Penodiadau Cyhoeddus)
E-bost: PublicAppointments@gov.wales

Atodiad A

Penodi Aelod i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Gwybodaeth i ymgeiswyr:

Gwahoddir ceisiadau i fod yn aelodau o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Mae'r nodyn hwn yn cynnwys manylion y Pwyllgor, y dyletswyddau perthnasol, gan gynnwys ymrwymiad amser, tâl cydnabyddiaeth a gwybodaeth am sut i wneud cais.

2. Cefndir

Mae Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yn gweithredu fel bwrdd cynghorol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Caiff aelodau'r Pwyllgor eu penodi gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr Adran Iechyd, yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999. Diffinir y rôl statudol fel a ganlyn:

"Bydd pwyllgor cynghorol yng Nghymru er mwyn cynnig cyngor a gwybodaeth i'r Asiantaeth am faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau (gan gynnwys materion penodol sy'n effeithio ar Gymru)."

Dylai aelodau sydd wedi'u penodi i'r Pwyllgor gydymffurfio ar bob adeg â'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a osodwyd gan Bwyllgor Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Atodiad C).

3. Beth yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd?

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn Adran Annibynnol Anweinidogol y Llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol ym mis Ebrill 2000 fel corff gwarchod diogelwch bwyd, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae ei chylch dylanwad yn amrywio ar draws yr holl gadwyn fwyd, o blaladdwyr a meddyginiaethau milfeddygol hyd at ddiogelwch bwyd a safonau bwyd mewn siopau, bwytai a siopau tecawê. Mae'r ASB yn gweithio'n agos â chyrff eraill megis awdurdodau lleol, adrannau eraill y Llywodraeth ac Asiantaethau Gweithredol er mwyn sicrhau y caiff rheoliadau ar ddiogelwch a safonau bwyd eu gorfodi er mwyn diogelu defnyddwyr. Caiff gwaith ymchwil ac arolygon eu comisiynu gan ystod o ffynonellau (gan gynnwys Pwyllgorau Cynghori annibynnol, arbenigwyr unigol a chyrff sydd â diddordeb) er mwyn sicrhau bod polisïau'n seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf a'r gorau sydd ar gael. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod angen i'r ASB reoli peryglon bwyd yn wyneb gwybodaeth anghyflawn neu anghytuno ymysg arbenigwyr.

Mae'r ASB yr un mor atebol i Senedd San Steffan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Llywodraeth Cymru drwy eu Gweinidogion Iechyd perthnasol. Yn ogystal â'i bencadlys yn Llundain, mae gan yr ASB swyddfeydd yng Nghaerdydd a Belfast, i gefnogi ei gweithrediadau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ac mae swyddfa ranbarthol arall yng Nghaer Efrog.

Mae'r ASB yn Adran o'r Llywodraeth, ond caiff ei harwain gan Fwrdd yn hytrach na gan Weinidog yn uniongyrchol. Mae hyn yn ei galluogi i weithio "hyd braich" o'r

Llywodraeth. Atgyfnerthodd y ddeddfwriaeth a sefydlodd yr ASB (Deddf Safonau Bwyd 1999) safle'r ASB, drwy roi pwerau iddi gyhoeddi unrhyw gyngor mae'n ei gynhyrchu, gan gynnwys cyngor i Weinidogion. Mae un Aelod o Gymru, Dr Ruth Hussey, wedi'i phenodi i Fwrdd y Deyrnas Unedig, ac mae'n cadeirio Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

Gan gydnabod bod ystod o gyngor cymhleth ar fwyd sy'n aml yn gwrthgyferbynnu, mae'r ASB yn ceisio sicrhau mai hi yw ffynhonnell cyngor a gwybodaeth mwyaf dibynadwy y Deyrnas Unedig (DU) ar fwyd, ac y gall defnyddwyr fod â hyder ynddi. Prif egwyddorion yr ASB yw:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
- bod yn agored a thryloyw
- defnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth
- gweithredu'n annibynnol
- gorfodi cyfraith bwyd yn deg

Wrth roi'r defnyddiwr yn gyntaf, diogelwch bwyd yw prif flaenoriaeth yr ASB. Mae'n ceisio darparu gwybodaeth ddealladwy, cywir a dibynadwy i ddefnyddwyr, y gallant seilio eu penderfyniadau am fwyd arni, ac a fydd yn eu helpu i ddeall yr holl faterion mewn perthynas â bwyd, diogelwch bwyd, a deiet a maeth. Mae'r ASB yn ymroddedig i gefnogi pob defnyddiwr o ran materion bwyd, gan gynnwys y rheiny sydd dan yr anfantais fwyaf yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae'r ASB yn seilio ei phenderfyniadau a'i chyngor ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, gan anelu at sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau mor agored a thryloyw â phosibl, ceisio safbwyntiau partïon sydd â diddordeb cyn dod i gasgliadau, a mae hi bob tro'n esbonio'r rhesymau dros ei phenderfyniadau a chyngor mewn modd syml. Mae wedi ymrwymo i benderfynu ar faterion polisi yn gyhoeddus ac ar ôl trafodaeth agored.

4. Rôl a chyfrifoldebau

Sefydlwyd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yn 2000 er mwyn rhoi cyngor a gwybodaeth i'r ASB. Bydd cyngor a gwybodaeth o'r fath ar ddiogelwch bwyd, safonau bwyd a materion perthnasol, yn enwedig os ydynt yn berthnasol i Gymru. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ASB yng Nghymru yn gyfrifol am gyngor maethol ers i'r swyddogaeth hon gael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru yn 2010. Mae'n ofynnol bod yr Asiantaeth yn ystyried cyngor neu wybodaeth sy'n rhesymol neu'n ymarferol, p'un a dderbyniwyd y cyngor neu'r wybodaeth ar gais yr Asiantaeth ai peidio. Caiff aelodau'r Pwyllgor eu penodi gan y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd y Cyhoedd yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999, er mwyn darparu ystod eang o arbenigedd, profiad a gwybodaeth ymarferol.

<u>Mae'r Pwyllgor:</u>

- yn gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu i swyddogion yr Asiantaeth a'i Fwrdd ar faterion penodol

- yn gweithredu ar y cyd er lles y cyhoedd

- yn cynghori'r broses o ddatblygu polisi a deddfwriaeth gan yr Asiantaeth

- yn helpu i sefydlu blaenoriaethau'r Asiantaeth, gan ystyried:
  - pryderon defnyddwyr
  - data cadw gwyliadwriaeth neu ymchwil
  - materion pynciol
  - barn aelodau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd agored a thryloyw drwy:

- gynnal cyfarfodydd cyhoeddus mewn ystod o leoliadau ar draws Cymru;
- gwrando ar safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru;
- cefnogi'r ASB mewn digwyddiadau cyhoeddus;
- nodi materion sy'n bwysig i Gymru;
- cynhyrchu cyngor trylwyr ac ystyrlon.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi:

- cynnal pedwar cyfarfod agored yng Nghymru a dau ddiwrnod datblygu/cyfarfod briffio
- rhoi cyngor i'r Asiantaeth ar ystod o bynciau, gan gynnwys: adolygiad o'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd; gwyddoniaeth yr ASB; cadw gwyliadwraeth ar fwyd a bwyd anifeiliaid; sicrhau mesurau rheoli cymesur ar gyfer "bwydydd sy'n peri risg"; lles anifeiliaid; rhaglen Rheoleiddio ein Dyfodol; Ymadael â'r UE; diddordeb defnyddwyr yn y system fwyd; ymwrthedd gwrthficrobaidd; Digwyddiadau a Gwydnwch: Adroddiad Blynyddol 2017/18; Llaeth Yfed Amrwd; y prosiect model ariannu cynaliadwy; lleihau campylobacter.

Cyfrifoldebau cyffredinol aelodau'r Pwyllgor

Mae Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yn gweithredu fel bwrdd cynghori i'r ASB. Cylch gorchwyl y Pwyllgor yw:

- rhoi cyngor neu wybodaeth i'r Asiantaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'i weithrediadau, gan gynnwys materion sy'n effeithio neu sy'n berthnasol i Gymru'n benodol.

Tâl cydnabyddiaeth

Caiff aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru eu contractio am 21 diwrnod y flwyddyn, ar honorariwm o £3,717.00 y flwyddyn, a gaiff ei dalu'n fisol mewn ôl-daliadau ar un rhan o ddeuddeg o'r gyfradd flynyddol drwy gredyd banc. Nid yw'r honorariwm yn bensiynadwy, mae'n ddarostyngedig i ddidyniad Yswiriant Gwladol a threth. Bydd yr Asiantaeth hefyd yn pennu unrhyw amrywiad yn y tâl cydnabyddiaeth blynyddol. Mae'r hawl i'r tâl cydnabyddiaeth hwn dan y Ddeddf yn dod i ben ar ddiwedd eich cyfnod yn y swydd.

Er ein bod yn croesawu ceisiadau gan Weision Sifil a gweithwyr sector cyhoeddus eraill, mae Canllawiau Penodiadau Cyhoeddus y Swyddfa Weithredol yn nodi: "Mae angen i ymgeiswyr sydd eisoes yn gweithio yn y sector cyhoeddus fod yn ymwybodol na ddylai unrhyw un dderbyn tâl ddwywaith o'r pwrs coeddus am yr un cyfnod o amser. O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd ymgeiswyr sydd eisoes yn gweithio yn y sector cyhoeddus yn gallu hawlio tâl cydnabyddiaeth am benodiad cyhoeddus os caiff y dyletswyddau eu cyflawni mewn cyfnod y maent eisoes yn derbyn tâl gan y sector cyhoeddus." Bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol wrth benodi aelodau i'r Pwyllgor.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Fel rhan o ymroddiad y Pwyllgor i fod yn agored, mae lleiafswm o chwe chyfarfod y flwyddyn yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, a gall unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg sydd â diddordeb eu mynychu. Yn ystod bob cyfarfod, mae cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r siaradwyr ac aelodau'r Pwyllgor. Mae'n bosibl y bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn swyddfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghaerdydd, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cynnal ledled Cymru hefyd, ac mae angen i'r aelodau fod yn barod i deithio yn ôl yr angen. Gan fod y cyfarfodydd hyn yn gyhoeddus, ac yn cael eu cynnal yn ôl amserlen dynn, mae angen i aelodau'r Pwyllgor allu siarad yn glir ac yn hyderus yn gyhoeddus, a gallu gwneud eu cyfraniadau mewn modd cryno. Caiff trafodaethau sy'n ymdrin â busnes mewnol y Pwyllgor, megis materion sefydliadol a chynlluniau gwaith am y dyfodol, eu cynnal yn sesiynau cynllunio'r Pwyllgor yn gyffredinol, a chânt eu cynnal mewn sesiynau caeëdig.

Ymrwymiad Amser

Mae'r rôl yn cynnwys ymrwymiad amser o 21 diwrnod y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfodydd Pwyllgor ac amser paratoi. Mae'n bosibl y bydd hefyd gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill y Pwyllgor mewn mannau eraill pan fo'r angen yn codi, er enghraifft cyfrannu at is-bwyllgor i'r Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, a sefydlir i ystyried maes pwnc penodol, neu gynrychioli'r Pwyllgor mewn digwyddiad arall. Bydd holl gostau rhesymol ar gyfer teithio a chynhaliaeth yn cael eu had-dalu.

Bydd y penodiad am ddwy neu dair blynedd i ddechrau. Mae modd adnewyddu am dymor ychwanegol ar argymhelliad y Cadeirydd, ac yn destun perfformiad boddhaol, yn ystod y cyfnod cyntaf yn y swydd. Caiff penderfyniadau terfynol ar benodiadau ac ail-benodiadau eu gwneud gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw rhagdybiaeth awtomatig am ailbenodiadau, ac mae rhagdybiaeth cryf na fydd unrhyw unigolyn yn treulio mwy na dau dymor nac yn gwasanaethu mewn unrhyw swydd am yn hirach na deng mlynedd.

5. Manyleb y Person

Mae'r Pwyllgor yn chwilio am unigolion sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

<u>Sgiliau a gwybodaeth hanfodol:</u>

- Y gallu i feddwl a gweithredu yn strategol ac yn ddadansoddol;

- Bod yn graff ei farn/barn, gyda lefel uchel o onestrwydd a chyfrifoldeb cyhoeddus, ynghyd â'r gallu i gyfrannu at wneud penderfyniadau anodd;

- Y gallu i ddadansoddi a chyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy ystod o gyfryngau;

- Y gallu i wasanaethu un ai heb wrthdaro buddiannau neu i ddangos sut y byddant yn ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl, boed y rheiny yn rhai go iawn neu'n rhai tybiedig;

- Profiad o ystyried a deall cyngor, tystiolaeth a dadl wyddonol;

- Byddai disgwyl i ymgeiswyr fod â phrofiad cefndirol sylweddol mewn un neu fwy o'r disgyblaethau canlynol:

  - Gwyddoniaeth
    (e.e. Microbioleg, Meddygol, Epidemioleg, Milfeddygol, Maetheg neu Wyddorau Cymdeithasol, newid ymddygiad yn benodol)

  - Addysg/Academia
    (Yn ddelfrydol mewn perthynas â bwyd-amaeth neu systemau a diogelwch bwyd)

  - Cyfathrebu
    (e.e. Ymgysylltu â defnyddwyr drwy ystod o gyfryngau, yn enwedig cyfryngau cymdeithasu)

  - Cynhyrchu Bwyd
    (Cefndir cynhyrchu bwyd)

  - Arall
    (e.e. Twyll bwyd, diwydiant bwyd neu'r sector arlwyo/bwytai/gwestai, llunio polisi mewn meysydd perthnasol, mentrau bwyd cymunedol, diogelu defnyddwyr, ymchwil defnyddwyr)

**Noder nad yw cylch gwaith yr ASB yng Nghymru yn cynnwys ymdrin â maeth.*

Sgiliau a gwybodaeth delfrydol/hanfodol:

- Ymroddiad i fwyd neu faterion defnyddwyr / mewnwelediad defnyddwyr o fewn cyd-destun Cymru;
- Deall rôl aelod Pwyllgor sefydliad cyhoeddus mawr a'r holl gyfrifoldebau perthnasol;
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer un o'r rolau ac yn ddelfrydol ar gyfer yr ail rôl.

Ym mhob un o'r rhain, bydd y rheiny sydd â'r mwyaf o allu i helpu i wireddu Cynllun Strategol yr Asiantaeth fel rhan o strwythur colegol yn cael blaenoriaeth. Bydd y penodiad yn ystyried cydbwysedd y sgiliau sydd ar y Pwyllgor. Mae Strategaeth yr ASB a Chynllun Strategol 2015-2020, ynghyd ag Atodiad Cymru a Chynllun Cyflenwi

Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth 2015-2020 ar gael ar wefan yr ASB drwy: https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/amdanomni/about-the-fsa

6. Cyfle Cyfartal

Mae penodiadau cyhoeddus yn seiliedig ar egwyddorion teilyngdod, gydag asesiad annibynnol a phroses agored a thryloyw. Mae'r Pwyllgor yn ymroddedig i gyflawni amrywiaeth ymysg ei aelodau. Croesewir ceisiadau gan bobl sydd wedi'u cymhwyso'n addas ac sy'n gallu cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yng Nghymru, heb ystyried hil, crefydd, cefndir ethnig, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, oed nac anabledd.

7. Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n gallu ymddwyn ar bob adeg mewn modd a fyddai'n cynnal hyder y cyhoedd.

Yn benodol, gofynnir bod ymgeiswyr yn datgan p'un a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywyd preifat neu bersonol a fyddai'n codi cywilydd arnyn nhw neu ar Lywodraeth Cymru pe byddai'n dod i'r amlwg petaent yn cael eu penodi.

Bydd gofyn i aelodau ddatgan eu holl fuddiannau personol neu fusnes y gall aelod rhesymol o'r cyhoedd fod o'r farn y byddai'n dylanwadu ar eu barn. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol mewn cofrestr o fuddiannau. Ni fydd cysylltiad masnachol, proffesiynol nac ariannol, na gwasanaeth fel cyflogai mewn diwydiannau cysylltiedig â bwyd neu amaethyddiaeth yn achos o wrthdaro buddiannau yn awtomatig a fyddai'n eithrio penodiad i'r Pwyllgor Cynghori (er y dylid datgelu unrhyw gysylltiad cyfredol neu hanesyddol yr ymgeisydd neu ei bartner/ei phartner yn y cais).

Dylech nodi'n benodol y gofyniad i chi ddatgan buddiannau preifat a all fod, neu y gellir eu canfod i fod, yn gwrthdaro â'r rôl a'r cyfrifoldebau fel Aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a safleoedd o awdurdod tu allan i'r rôl ar Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau wrth gael eich penodi a fydd yn cael eu gosod ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

8. Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymarfer i Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen hon ar gael drwy:

http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

Atodiad B

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut ydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Chris Brereton, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru, a bydd hefyd yn cynnwys Ruth Hussey, Aelod y Bwrdd dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, ac Andrew Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd / Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd Integredig, Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel Aelod Panel Annibynnol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w hystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn disgwyl y bydd y panel wedi penderfynu ym mis Gorffennaf 2018 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Awst 2018.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf, sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yng Nghaerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi (yn ôl y panel) yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael eu hysbysu am unrhyw gynnydd.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych chi gwestiynau am eich cais, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth drwy ffonio 0300 062 8204 (a gofyn am yr Uned Penodiadau Cyhoeddus) neu drwy e-bostio PublicAppointments@gov.wales

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd gyda chwrteisi. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth drwy ffonio 0300 062 8204 (a gofyn am yr Uned Penodiadau Cyhoeddus) neu drwy e-bostio PublicAppointments@gov.wales

Atodiad C

SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS

Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu elwa mewn ffordd faterol arall.

Uniondeb (*Integrity*)

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu unrhyw ddyled arall i sefydliadau neu unigolion allanol a allai ddylanwadu ar y ffordd y maent yn perfformio'u dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.

Bod yn Agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch pob penderfyniad a gweithred a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar yr wybodaeth, oni bai bod oes angen gwneud hynny er budd ehangach y cyhoedd.

Gonestrwydd

Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.

Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arwain a gosod esiampl.